Poeni am y Wasgfa Ariannol?

Os ydych chi'n poeni am y wasgfa ariannol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a sefydliadau eraill yn gallu cynnig nifer o wasanaethau i helpu trigolion a busnesau

Gwneud y gorau o'ch incwm

Cyngor Budd-daliadau

Mae amryw o fudd-daliadau ar gael i bobl ar incwm isel, gan gynnwys Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor. Nid oes rhaid i chi fod allan o waith i dderbyn y budd-daliadau hyn. Os nad ydych yn sicr eich bod yn gymwys, siaradwch efo Ymgynghorydd Budd-daliadau. Gallant roi amcangyfrif o'ch hawliau. Gallant hefyd roi cyngor am brydau ysgol am ddim a grantiau dillad ysgol. Ffoniwch 01492 576491 neu ewch i'n gwefan www.conwy.gov.uk/budd-daliadau

Efallai bod hawl gennych i dderbyn budd-daliadau eraill neu gredydau treth. Mae 9 teulu mewn 10 sydd â phlant yn cael credydau treth, ond nid oes rhaid i chi fod yn rhieni i fod yn gymwys. Gallech hefyd fod yn gymwys os yw eich cyflog yn isel. I wybod mwy ffoniwch 0845 300 3900.

Mae Credyd Pensiwn yn hawl i bobl 60 oed a hŷn, a gallai ychwanegu at eich incwm wythnosol gan roi lefel isafswm sicr i chi. Efallai y byddwch yn dal yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn os ydych yn byw efo'ch teulu neu'n berchen ar eich cartref. Ffoniwch 0800 991234 i wybod os oes gennych hawl i'w gael.

Talu eich biliau ac arbed arian

Treth y Cyngor

Bydd anwybyddu eich problemau dyledion ond yn gwneud pethau'n waeth.

Os ydych chi'n cael trafferth talu Treth y Cyngor, cysylltwch â'r Uned Treth y Cyngor ac eglurwch pam. Os byddwch yn gwneud hyn mor fuan â phosibl, bydd gennych fwy o ddewisiadau i ddatrys eich problemau ariannol. Gallwch hefyd geisio am ostyngiadau ac eithriadau ar eich bil dan amgylchiadau penodol er enghraifft, os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun. I wybod mwy ffoniwch 01492 576607 neu ewch i'r wefan www.conwy.gov.uk/trethycyngor

Arbed ynni ac arbed arian
Gallwch leihau gwastraff ynni yn eich cartref ac arbed arian ar eich biliau ynni. Mae'n bosibl y cewch chi grant i'ch helpu chi i dalu am bethau fel insiwleiddio'ch cartref a gwella effeithlonrwydd ynni. Gall hyn helpu lleihau eich biliau tanwydd. Er mwyn gwybod mwy cysylltwch â Chanolfan Cynghori Effeithlonrwydd Ynni Gogledd Cymru. Ffoniwch 0800 954 0658 neu ewch i'w gwefan www.nweeac.org.uk

Tariffau cymdeithasol (ynni)
Mae tariffau cymdeithasol yn gyfraddau arbennig sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr ynni i deuluoedd diamddiffyn sy'n cael trafferth talu am nwy neu drydan.

Mae gan wahanol gwmnïau wahanol feini prawf, ond ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf yn ystyried rhoi tariffau cymdeithasol i bobl hŷn, pobl ar incymau isel a phobl sy'n derbyn budd-daliadau.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch darparwr ynni chi, neu Ganolfan Cynghori Effeithlonrwydd Ynni Gogledd Cymru. Ffoniwch 0800 954 0658 neu ewch i'w gwefan www.nweeac.org.uk

Peidiwch â cholli'ch cartref

Un o fygythiadau mwyaf y wasgfa ariannol yw bod pobl yn mynd yn ddigartref am nad ydynt yn gallu cynnal taliadau morgais neu daliadau rhent ar eu cartrefi. Mae'n bosibl osgoi hyn mewn sawl achos, felly peidiwch â gadael i hyn ddigwydd i chi. Os ydych chi'n wynebu trafferthion, cymerwch gamau rŵan. Siaradwch efo'ch benthycwyr morgais neu eich landlord. Meddiannu eich cartref yw'r dewis olaf ac os fedrwch chi ddod i gytundeb sy'n dderbyniol i bawb yn fuan, gallwch osgoi cymryd achos llys. Os na fyddwch yn dod i gytundeb boddhaol gyda'ch benthycwyr/landlord, gofynnwch am gyngor arbenigol gan sefydliadau fel Shelter neu Cyngor ar Bopeth.

Os ydych chi'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref, siaradwch efo Tîm Dewisiadau a Chefnogaeth Tai'r Cyngor, gallant roi cyngor cyfrinachol am ddim. Ffoniwch 01492 576271 neu ewch i'r wefan www.conwy.gov.uk/digartref

Help i fusnesau

Mae'r wasgfa ariannol yn taro nifer o fusnesau'n galed. Mae Tîm Cefnogi Busnes Conwy a'i bartneriaid yn

cynnig amryw o wasanaethau i helpu busnesau sy'n cael trafferth i ymdopi â'r cwymp economaidd presennol. Gallant gynnig awgrymiadau a syniadau i helpu busnesau oroesi'r dirwasgiad. Drwy fethu paratoi rydych yn paratoi i fethu, felly chwiliwch am gyngor i helpu'ch busnes yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ffoniwch 01492 574555 neu 01492 574501 neu ewch i'r wefan www.conwy.gov.uk/busnes

Trethi Busnes neu Drethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)
Gallwch wneud cais am sawl gostyngiad ar drethi busnes, gan gynnwys; gostyngiad treth eiddo gwag, gostyngiad treth i fusnesau bach, gostyngiad treth dewisol a gostyngiad caledi. Gall Tîm NNDR Cyngor Conwy roi cyngor ar dalu eich bil ac ar unrhyw ostyngiadau allai fod ar gael. Ffoniwch 01492 576609, neu ewch i'r wefan www.conwy.gov.uk/trethibusnes

Gwneud y gorau o'ch llyfrgell

Mae llyfrgelloedd ar agor i bawb a gallwch ymuno am ddim. Gall staff eich helpu i gysylltu ag adrannau'r Cyngor a sefydliadau eraill. Gallwch ddefnyddio cyfrifiaduron am ddim, a gallai hyn eich helpu i ddiweddaru'ch CV, sefydlu cyfeiriad e-bost, neu wneud cais am swyddi ar-lein. Mae papurau newydd lleol a chenedlaethol ar gael i chwilio am swyddi neu lety. I wybod mwy ffoniwch 01492 576139, neu ewch i www.conwy.gov.uk/llyfrgell

Sefydliadau eraill a allai eich helpu

Benefit Advice Shop (Rhyl) - yn cynnig cyngor a gwybodaeth ar bob agwedd o Fudd-daliadau Lles. Ffoniwch 01745 345145, neu ewch i www.bashop.tv/right.htm

Cyngor Ar Bopeth (CAB) - yn cynnig cyngor diduedd, annibynnol a chyfrinachol am ddim ar amryw o bynciau, gan gynnwys cyngor cyfreithiol ac ariannol. Ffoniwch 0845 4503060 neu ewch i www.adviceguide.org.uk

Undeb Credyd Llandudno - yn cynnig gwasanaethau ariannol i bobl Conwy, gan gynnwys cyfrifon cyfredol a chynilion a benthyciadau llog isel. Ffoniwch 01492 580028 neu ewch i www.llandudnocu.co.uk

Gwasanaeth Cynghorwyr Budd-daliadau'r Adran Waith a Phensiynau - yn rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid a chyngor ar hawlio 28 o fudd-daliadau, pensiynau a chredydau, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau. Ewch i http://benefits-adviser.direct.gov.uk/benefits-adviser-cy.html

Hawliau Pobl Ni - yn cynnig cyngor ar fudd-daliadau a help ar lenwi ffurflenni hawlio i bobl sy'n byw yn Nyffryn Conwy. Ffoniwch 01492 641313.

Llinell Gymorth Dyledion Tai Cymru - yn cynnig cefnogaeth i unigolion a theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cyflawni eu taliadau morgais neu rent. Ffoniwch 0800 107 1340 neu ewch i www.llinell-gymorth-dyledion-tai-cymru.org

National Debt Line - yn cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim ar sut i ddelio efo problemau dyledion. Ffoniwch 0808 808 4000 neu ewch i www.nationaldebtline.co.uk

Shelter Cymru - yn cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim i atal pobl rhag colli eu cartrefi. Ffoniwch 0845 075 5005, neu ewch i www.sheltercymru.org.uk

Uned Fenthyca Arian Anghyfreithlon Cymru - sefydlwyd i helpu pobl sy'n cael trafferthion gyda benthycwyr arian anghyfreithlon. Os ydych chi wedi dioddef oherwydd un o'r benthycwyr hyn neu'n adnabod rhywun sydd wedi dioddef ffoniwch y Llinell Gymorth ar 0300 123 3311 neu ewch i www.tradingstandardswales.org.uk

Os ydych chi'n cael trafferth, ceisiwch gael y cyngor a'r help rydych ei angen cyn gynted â phosibl. Bydd anwybyddu problemau yn eu gwneud yn waeth. Ewch i'n gwefan yn **www.conwy.gov.uk/ywasgfagredyd**